

Adolygiad HapSamplau Sicrhau Ansawdd:

Adolygiad o Gwynion Cod Ymddygiad Annerbyniadwy

Cyflwyniad

Yn unol ag ymrwymiad parhaus Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) i sicrhau ansawdd—ac fel yr argymhellwyd yn Adolygiad Annibynnol 2024 o Ymchwiliadau i Gwynion Cod Ymddygiad—cefaïs fy mhenodi i gynnal adolygiad wedi'i dargedu o achosion annerbyniadwy. Cyflawnwyd hyn drwy ymarfer hapsamplu ($n=15$) i sicrhau ymlyniad parhaus at uniondeb y broses a safonau uchel o ran gwneud penderfyniadau, a bod y broses yn rhydd rhag rhagfarn wleidyddol.

Methodoleg

Detholiad Sampl

At ddiben yr adolygiad hwn, cefais restr lawn o bob achos caeedig y Tîm Cod ($n = 87$) ac achosion trechu Rheolwr Tîm Cod ($n = 4$).

Rhoddwyd mynediad diogel i system ymdrin â chwynion OGCC, gan alluogi adolygiad llawn o'r ddogfennaeth berthnasol.

O'r 91 achos, dewisais 15 achos (16.5%) ar hap i'w hadolygu:

- 13 achos o restr gaeedig y Tîm Cod
- 2 achos o restr drechu Rheolwr Tîm y Cod

Meini Prawf ar gyfer Adolygu Achos

Aseswyd pob achos a ddewiswyd yn erbyn yr un tri maen prawf craidd a ddefnyddiwyd yn Adolygiad Annibynnol 2024:

- Presenoldeb Tystiolaeth Glir
- Ymlyniad i Brosesau Sefydledig
- Bodolaeth Rhesymeg Gadarn, Wedi'i Mynegi'n dda

Defnyddiwyd y meincnodau hyn i werthuso cywirdeb, tegwch ac ansawdd y broses o wneud penderfyniadau.

Canfyddiadau

Ar draws pob un o'r 15 achos a adolygwyd, canfûm:

- Defnydd Clir a Phriodol o Dystiolaeth: Cefnogwyd pob penderfyniad gan ddogfennaeth berthnasol a chymesur.
- Gweithrediad Cadarn o Brosesau Sefydledig: Roedd cydymffurfiaeth gyson â gofynion gweithdrefnol a phrotocolau gwneud penderfyniadau.

- Rhesymeg Gref, Wedi'i Rhesymu'n Dda: Roedd y rhesymeg dros bob penderfyniad annerbyniadwy wedi'i mynegi'n glir, yn rhesymegol gadarn, ac wedi'i phrofi'n dda.
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth o ragfarn wleidyddol na dylanwad gormodol mewn unrhyw achos a adolygwyd. Roedd y penderfyniadau'n adlewyrchu ystyriaeth ofalus o rinweddau a chyd-destun pob cwyn.

Casgliad

Mae'r adolygiad yn cadarnhau bod dull OGCC o ymdrin â chwynion annerbyniadwy mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad yn dangos safon ymarfer sy'n gyson uchel. Roedd y broses o wneud penderfyniadau yn gytbwys, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn gadarn o ran y weithdrefn. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod uniondeb y broses gwyno yn cael ei gynnal.

Dr Melissa Mc

29.05.2025